Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **22 Gorffennaf 2024** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd) Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, y Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Lisa Toth.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Sioned Jones (Cyfieithydd).

**39/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Steve Bell, Cyng Beverley Jones, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts.

**40/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Datganodd y Cynghorwyr Elin Walker Jones, John Wynn Jones a Meic Pattison ddiddordeb yn eitem 46/24 gan eu bod yn Aelodau o Bwyllgor Menter Iaith Bangor ac felly nid oeddent yn cael pleidleisio.

**41/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ar brosiect arfaethedig *Bangor Tradewinds*. Mae'r prosiect hwn yn llunio partneriaeth Dinas-gyfan i frwydro yn erbyn tlodi plant lleol ac i leihau diffyg cymryd rhan, dieithrio ac absenoldeb o ysgolion. I gyflawni hyn bwriedir sefydlu Canolfan Ddysgu Forwrol trwy grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Gofynnwyd i Gyngor y Ddinas fod yn ganolfan sefydliadol ar gyfer y prosiect.

Yn dilyn y cyflwyniad pymtheg munud cafwyd sesiwn holi ac ateb. Diolchodd y Cyngor i'r cynrychiolydd am yr wybodaeth gynhwysfawr.

**42/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 22 MEHEFIN 2024.**
**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin fel cofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor. Fodd bynnag, cynigiwyd ychwanegu nodyn i gofnodi, oherwydd nam ar yr offer, bod wifi y Cyngor wedi methu ac na fu'n bosibl cynnal cyfarfod hybrid.

**43/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig, a oedd yn manylu ar fentrau a phrosiectau'r Cyngor, wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. O’r eitemau yn yr Adroddiad, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw’r Cyngor at y canlynol:

i) Eitem v, yn dilyn cwblhau’r prosiect Stryd Fawr yn llwyddiannus mewn cyfnod byr o amser roedd Llywodraeth Cymru, trwy Gyngor Gwynedd, wedi hysbysu Cyngor y Ddinas bod arian ychwanegol yn y gyllideb Trawsnewid Trefi, pe bai gan y Cyngor brosiectau pellach y gellid eu gwneud. Byddai angen eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2025.

ii) Ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Asedau, Cyng Medwyn Hughes, cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus iawn gyda Mr Steffan Jones o Gyngor Gwynedd i drafod delwedd y Ddinas. Trafodwyd mentrau newydd ac arferion gweithio ar y cyd a

chytunwyd y byddai Bangor yn treialu prosiect a fyddai, os yn llwyddiannus, yn cael ei gyflwyno ar draws y Sir.

iii) Roedd Ynni Ogwen wedi cytuno i ariannu gosod ynni solar i Neuadd y Penrhyn.

iv) Gofynnwyd i'r cynghorwyr ymgyfarwyddo ag eitemau iv a xv, yr ymgynghoriad ar y CDLl newydd a chynnig Cyngor Gwynedd i newid ei system bleidleisio. Roedd gwaith papur ar gyfer y rhain wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod a dywedwyd wrth y Cyngor y byddai'r ddwy eitem yn cael eu cynnwys yn Agenda mis Medi.

**44/24 DERBYN YR ADRODDIAD GWIRIONEDDOL AR GYLLIDEB 3 MIS**

*Roedd y Gyllideb 3 Mis o'i chymharu â'r Adroddiad Gwirioneddol wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'w hystyried.*

Cyflwynodd Cadeirydd (dros dro) y Pwyllgor Cyllid yr Adroddiad 3 Mis ar y Gyllideb yn erbyn Gwariant Gwirioneddol i'r Cyngor gydag argymhelliad, yn dilyn gwerthusiad y pwyllgor hwnnw, y dylid derbyn yr adroddiad. Amlygodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol fod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi mewn fformat gwahanol i'r un a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd cynt er hwylustod.

**Penderfynwyd:** argymell derbyn y Gyllideb 3 Mis yn erbyn yr Adroddiad Gwirioneddol.

**45/24 ENWEBU CONTRACTWR GOLEUADAU NADOLIG AM Y TAIR BLYNEDD NESAF.**

Cymharwyd tri dyfynbris i gyflenwi Goleuadau Nadolig am y tair blynedd nesaf yn seiliedig ar bris, cynnwys, deunyddiau ailgylchadwy a ddefnyddiwyd, ac a ydynt yn cyflenwi Cynghorau eraill yn lleol. Roedd pob cyflenwr yn ddienw er mwyn sicrhau tegwch. Roedd y dyfynbrisiau wedi'u gwerthuso gan y Pwyllgor Cyllid a dywedwyd wrth y Cyngor fod y Pwyllgor yn argymell opsiwn 2.

**Penderfynwyd:** penodi cyflenwr 2 fel cyflenwr y Cyngor am y tair blynedd nesaf.

*Heb ei ddatgelu yn y cyfarfod mai Blachere Illuminations oedd cyflenwr 2.

**46/24 TRAFOD GRANT DYDD GŴYL DEWI 2025**

Hysbyswyd y Cyngor gan Gadeirydd (dros dro) y Pwyllgor Cyllid bod y pwyllgor wedi trafod lefel y grant i Fenter Iaith Bangor ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2025. Daeth i'r casgliad y byddai'n hapus i gynyddu'r grant i MIB i ganiatáu ar gyfer ehangu dathlu Gŵyl Ddewi, o ystyried y byddai'r Ddinas yn dathlu 1500 o flynyddoedd ers sefydlu anheddiad crefyddol Deiniol Sant. Fodd bynnag, penderfynwyd gohirio'r argymhelliad terfynol hyd nes y derbynnir y ffurflen gais.

**47/24 GWERTHUSO CAIS AM GRANT gan ACTION FOR CHILDREN**

*Roedd y ffurflen gais am grant wedi'i chylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau*

Hysbyswyd y Cyngor, yn dilyn trafodaeth fanwl a helaeth ar y cais hwn gan y Pwyllgor Cyllid, y penderfynwyd nad oedd digon o fanylion i argymell ei dderbyn. Dywedwyd y dylai'r prosiect hwn gael ei ariannu drwy gyrff statudol ac nad oedd o fewn cylch gorchwyl cyngor cymuned, hefyd nid oedd digon o fanylion ar sut fyddai'r arian grant i'r corff Cenedlaethol yn cael ei wario a sut oedd y gofynion eraill yn cael eu hariannu. Nid oedd y pwyllgor ychwaith yn argyhoeddedig fod sicrwydd y byddai'r holl arian yn cael ei wario ym Mangor.

**PENDERFYNWYD:** gwrthod y cais ar hyn o bryd.

**48/24 CAIS GAN CIC NANTPORTH I WNEUD NEWIDIADAU**

Dywedwyd bod cais ôl-weithredol wedi'i dderbyn gan CIC Nantporth i wneud newidiadau i Stadiwm Nantporth. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys ychwanegu cladin i rannau allanol yr adeilad, adnewyddu'r tu mewn, gwaith uwchraddio ar y ffens allanol, a gwelliannau i'r cae pêl-droed. Dywedodd Cyfarwyddwr y Ddinas ei fod, ers derbyn y cais, wedi ymweld â'r stadiwm a chadarnhaodd fod y newidiadau yn welliant gweledol sylweddol. Dywedodd ymhellach fod y CIC wedi cael gwybod y dylid bod wedi gofyn am newidiadau o'r fath cyn i'r gwaith gael ei wneud. Roedd hyn wedi'i gydnabod a chafwyd ymddiheuriad.
**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cais am newid ond gofyn, yn unol â pholisi dwyieithrwydd Cyngor y Ddinas, i arwyddion y stadiwm gael eu gosod yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

**49/24 CAIS CYNLLUNIO**
Cais cynllunio C24/0527/11/LL i newid defnydd 104 Stryd Fawr o ddefnydd masnachol i dŷ sengl.
**Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR